

MANTEISION SYSTEM RHEOLI LLYFRGELL AR Y CYD 2019/20

Yn 2016, fe gwblhaodd 9 o lyfrgelloedd addysg uwch Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a llyfrgelloedd GIG Cymru y gwaith o weithredu Ex Libris' Alma a Primo. Mae manteision rhannu system Rheoli Llyfrgelloedd a Darganfod yn parhau i ddod i'r amlwg

ARBEDION O RAN COST

Arbedir £150K bob blwyddyn ar danysgrifiad system trwy brynu fel consortiwm.

Arbedir £7,200 bob blwyddyn wrth i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gynnig cyfieithu Cymraeg ar gyfer holl ryngwynebau system y llyfrgelloedd.



BENTHYCA DWY Ffordd WHELP

Mae'r cynllun, a gyflwynwyd yn 2018, yn defnyddio ymarferoldeb Alma ISO i alluogi rhannu adnoddau rhwng aelodau WHELP. Mae'n parhau i ddwyn arbedion a chynyddu adnoddau i'r eithaf. Wrth i safleoedd llyfrgell gau oherwydd Covid, mae wedi cynnig mynediad amgen at adnoddau. Gwelwyd dros £24,000 o arbedion yn y cynllun a chyflawnwyd 3451 o geisiadau yn 2019/20.



CYNLLUN GWEITHREDU


Creodd y Bwrdd LMS gynllun gweithredu 2020-2023, wedi'i alinio â strategaeth WHELP. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar Ddadansoddeg a Rennir, Darganfod, UX a Rhannu Adnoddau.

Er mwyn llywio gweithgareddau yn y dyfodol, cwblhaodd bwrdd LMS WHELP adolygiad o'r farchnad LMS a dechrau paratoi i uwchraddio i Primo VE.



RHANNU ARFERION GORAU

Cynhaliwyd sesiynau rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. Roedd y rhain yn ymdrin â phynciau gan gynnwys Rhestr Darllen, Alma Analytics, addasu systemau a gwasanaethau yn ystod Covid, CDI, addasu ebyst Alma, Rheolau normaleiddio a Knowledge Base +.



ILL Y TU HWNT I WHELP

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant y cynllun benthyca dwy ffordd, dechreuon ni ystyried agor y cynllun i lyfrgelloedd Alma eraill. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â darpar bartneriaid, rhanddeiliaid ac ystyried ymarferoldeb pellach yn Alma. Dechreuon ni ymchwilio i ymarferoldeb Alma i'w gwneud hi'n symlach i ddefnyddwyr ymweld â llyfrgelloedd WHELP eraill a benthyca ohonynt. Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio gan fod llyfrgelloedd ar gau oherwydd COVID.

